Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

Carfan Gofal Plant
Rhondda Cynon Taf

Grant i Ddarparwyr Gofal Plant 2021-2022

Canllawiau i ymgeiswyr

1. Diben y Grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi'r sector gofal plant yn RhCT wrth iddyn nhw ymdopi â'r heriau sydd wedi dod i law yn sgil COVID-19. Diben y grant yma yw:

- Cefnogi lleoliadau sy'n gorfod cau'n llawn neu'n rhannol o **1 Ebrill 2021 – 6 Awst 2021.** Does dim hawl gyda ni roi cyllid ar gyfer achosion o gau cyn y dyddiad yma.

- O 7 Awst 2021, dim ond ceisiadau gan warchodwyr plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaaeth Gofal Cymru ac sydd wedi gorfod cau'n llwyr, y byddwn ni'n eu hystyried. Mae hyn yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi mai dim ond y rhai sydd wedi cael prawf COVID positif sy'n gorfod hunanynysu. Does dim angen i gysylltiadau agos ynysu mwyach os ydyn nhw o dan 18 oed a / neu wedi cael eu brechu'n llawn (mae'n ofynnol i unrhyw un a nodwyd fel cyswllt agos nad yw wedi'i frechu'n llawn hunan-ynysu yn unol â chyfarwyddyd y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau). Gall gwarchodwyr plant gyflwyno ceisiadau am arian oherwydd gorfod cau eu lleoliadau yn llwyr o **7 Awst 2021 - 31 Mawrth 2022** (oni bai bod canllawiau newydd yn disodli'r wybodaeth hon). Os yw'r Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau wedi cyfarwyddo unrhyw fath arall o leoliad gofal plant, rhwng 7 Awst - 31 Mawrth 2022, i gau yn llawn neu'n rhannol oherwydd clwstwr o achosion cadarnhaol a nodwyd, cysylltwch â'r garfan gofal plant i drafod.

- Talu costau uwch sy'n gysylltiedig â COVID-19, megis costau gwresogi, glanhau neu wisgoedd newydd neu gostau cysylltiedig ag eiddo oherwydd nad yw lleoliadau'n gallu agor neu weithredu hyd eithaf eu gallu. Rydych chi dim ond yn gymwys i wneud cais am gyllid i gynnwys costau staffio ar gyfer staff gweithredol, gan gynnwys gweithwyr ychwanegol. Chewch chi ddim gwneud cais am gyllid i dalu costau staffio os oedden nhw'n gymwys neu'n derbyn ffyrlo rhwng **1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021** trwy'r Cynllun Cadw Swyddi Coronavirus (CJRS) a / neu unrhyw gymorth ariannol arall er mwyn cadw'r gweithlu. Dyw hyn ddim chwaith ar gael ar gyfer staff rheoli na staff swyddfa gefn.

- Darparu cefnogaeth ariannol i leoliadau gofal plant sy'n profi caledi ariannol difrifol oherwydd COVID-19 a lle nad oes cyllid cyhoeddus arall ar gael i dalu'r costau hynny. Pwrpas y grant hwn yw cynnal cynaliadwyedd tymor byr. Os ydych chi'n credu efallai na fydd eich lleoliad yn weithredol o fewn y chwe mis nesaf neu ar ôl 31 Mawrth 2022, cysylltwch â CarfanGofalPlant@rhondda-cynon-taf.gov.uk **CYN** cwblhau'r cais hwn.

2. Pwy sy'n cael gwneud cais?

- Carcwr plant
- Meithrinfa - diwrnod llawn
- Gofal y tu allan i'r ysgol (ar ôl ysgol / yn ystod y gwyliau)
- Gofal sesiynol (grwp chwarae / cylch meithrin)
- Gofal Cofleidiol ar gyfer plant oed meithrin

Sylwch - Does dim modd inni dderbyn ceisiadau grant gan leoliadau gofal plant sy'n cael eu hariannu'n llwyr gan raglen Dechrau'n Deg

3. Meini prawf

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, mae rhaid i'r lleoliad gofal plant fod:

- yn Rhondda Cynon Taf

- Mae lleoliadau sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael blaenoriaeth. Efallai y bydd cyllid ar gael ar gyfer lleoliadau heb eu cofrestru ar yr amod eu bod yn dangos ymrwymiad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru cyn pen 12 mis ar ôl y cais yma.

- Cytuno i gael ei rwymo gan delerau ac amodau'r grant.

- Cytuno i dderbyn negeseuon ebost ar gyfer cymorth, cyngor a hyfforddiant a diweddariadau gan Garfan Gofal Plant RhCT

- Ydych chi wedi'ch cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a DEWIS? I gysylltu â GGD defnyddiwch yr wybodaeth gyswllt isod: E-bost y GGD: GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk neu ffonio 01443 425006
  I gofrestru ar wefan DEWIS, defnyddiwch y ddolen yma i greu cyfrif www.dewis.cymru

Mae meini prawf cymhwysedd pellach sy'n gysylltiedig â phob adran grant wedi'u nodi isod.

4. Beth mae modd ei ariannu?

Mae tair adran grant ar y ffurflen gais. Darllenwch bob adran yn llawn a dewis un grant i wneud cais amdano fesul cais. Os hoffech chi wneud cais am fwy nag un adran (er enghraifft, os oedd rhaid i chi gau'n llawn neu'n rhannol fwy nag unwaith), yna mae rhaid i chi gwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob adran/cyfnod cau. Mae disgrifiad o bob adran isod:

Adran A - Grant Hunanynysu - (cau'n llwyr neu'n rhannol)

Mae'r cyllid yma ar gyfer lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddyn nhw gau'n llwyr neu'n rhannol oherwydd COVID-19. Mae lleoliadau sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael blaenoriaeth. Efallai y bydd cyllid ar gael ar gyfer lleoliadau heb eu cofrestru ar yr amod eu bod yn dangos ymrwymiad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru cyn pen 12 mis ar ôl y cais yma.

Sylwch mai dim ond hyd at 3 gwaith y cewch chi wneud cais am y grant yma.

- Mae'r cyllid yn cael ei dalu ar ôl i'r lleoliad ailagor
- DIM OND ar gyfer lleoliadau sydd wedi cau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru / Iechyd yr Amgylchedd / y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu
- Cefnogi lleoliadau sydd wedi gorfod cau'n llawn neu'n rhannol o **1 Ebrill 2021 – 6 Awst 2021. Does dim hawl gyda ni roi cyllid ar gyfer achosion o gau cyn y dyddiad yma**.
- **O 7 Awst 2021**, dim ond ceisiadau gan warchodwyr plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaaeth Gofal Cymru ac sydd wedi gorfod cau'n llwyr, y byddwn ni'n eu hystyried. Mae hyn yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi mai dim ond y rhai sydd wedi cael prawf COVID positif sy'n gorfod hunanynysu. Does dim angen i gysylltiadau agos ynysu mwyach os ydyn nhw o dan 18 oed a / neu wedi cael eu brechu'n llawn (mae'n ofynnol i unrhyw un a nodwyd fel cyswllt agos nad yw wedi'i frechu'n llawn hunan-ynysu yn unol â chyfarwyddyd y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau). Gall gwarchodwyr plant gyflwyno ceisiadau am arian oherwydd gorfod cau eu lleoliadau **yn llwyr** **o 7 Awst 2021 - 31 Mawrth 2022** (oni bai bod canllawiau newydd yn disodli'r wybodaeth hon). Os yw'r Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau wedi cyfarwyddo unrhyw fath arall o leoliad gofal plant, rhwng 7 Awst - 31 Mawrth 2022, i gau yn llawn neu'n rhannol oherwydd clwstwr o achosion cadarnhaol a nodwyd, cysylltwch â'r garfan gofal plant i drafod.

- Rhaid i leoliadau roi gwybod i AGC/GGD/Carfan Gofal Plant RhCT eu bod ar gau drwy gwblhau ffurflen rhoi gwybod am achos positif o COVID-19. Dyma'r ddolen i roi gwybod bod lleoliad yn cau'n llawn neu'n rhannol Darparwr Gofal Plant sydd ag achos wedi'i gadarnhau o COVID-19

- Rhaid i leoliadau hysbysu'r Garfan Gofal Plant Arolygiaeth Gofal Cymru / Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd / RhCT am ailagor

- Bydd cyllid yn cael ei dalu ar y cyfraddau canlynol – £45 ar gyfer pob lle gofal plant llawn amser (10 awr) nad yw ar gael oherwydd y gofyniad i hunanynysu.
- £22.50 ar gyfer hanner diwrnod – hyd at 5 awr y dydd
- £13.50 ar gyfer llefydd gofal sesiynol / cofleidiol / ar ôl yr ysgol – hyd at 3 awr y dydd

- Bydd y cyllid ond ar gael ar gyfer y lleoedd hynny nad ydyn nhw'n cael eu hariannu gan unrhyw gynlluniau eraill nac arian cyhoeddus (Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg, cyllid Meithrinfa Cyfnod Sylfaen heb ei gynnal ac ati). Er enghraifft, os oes rhaid i ystafell gyda 10 o blant sydd i fod yn bresennol hunanynysu, ond mae 3 eisoes wedi'u hariannu gan y Cynnig Gofal Plant, yna bydd y grant ar gyfer 7 lle.
- Mae'r grant yn gyfraniad i dalu am golled o incwm ffioedd preifat YN UNIG. Does dim modd ei hawlio os ydych chi'n codi tâl ar rieni am y lleoedd hynny.
- Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o nifer y plant a archebodd le ar gyfer pob diwrnod o'r cyfnod rydych chi ar gau trwy'r templed lleoedd a ariennir a anfonwyd atoch chi yn yr e-bost gwreiddiol. Bydd angen atodi hwn i'r ffurflen gais ar ffurf dogfen Word. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais.

Mae modd hawlio'r Grant yma am hyd at 3 chyfnod gwahanol o gau'n llwyr neu'n rhannol.

Os cliciwch 'na' i nodi na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth, bydd eich cais yn cael ei wrthod ar unwaith.

Adran B - Costau uwch/costau cysylltiedig ag eiddo

Mae'r cyllid yma i gefnogi lleoliadau sydd â chostau uwch o ganlyniad uniongyrchol i fesurau diogelwch ar gyfer COVID-19, neu sy'n methu ag agor na gweithredu hyd eithaf eu gallu oherwydd y cyfyngiadau ar y defnydd o'r adeiladau maen nhw'n eu rhentu. Mae lleoliadau sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael blaenoriaeth. Efallai y bydd cyllid ar gael ar gyfer lleoliadau heb eu cofrestru ar yr amod eu bod yn dangos ymrwymiad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru cyn pen 12 mis ar ôl y cais yma.

Mae modd i gostau uwch gynnwys:

- Costau gwresogi uwch oherwydd yr angen am awyru
- Gofynion glanhau ychwanegol
- Galw cynyddol am wisgoedd ar gyfer y staff
- Fydd yr adran yma ddim yn talu cost eitemau Cyfarpar Diogelu Personol. Mae gan Garfan Gofal Plant RhCT gynllun ar wahân i gefnogi lleoliadau gyda'r gost yma
- Mae hyn ar gyfer lleoliadau sydd ar agor ac yn dal i fod yn weithredol yn unig

Mae cyllid ar gael ar gyfer costau uwch ar ffurf cyfraniad unwaith yn unig tuag at y costau uwch hynny sydd wedi'u hachosi yn uniongyrchol gan bandemig COVID-19. Dyma'r costau hynny:

- £750 ar gyfer lleoliadau mewn adeiladau annomestig
- £500 ar gyfer lleoliad mewn adeilad domestig (gwarchodwyr plant)

Mae modd i gostau cysylltiedig ag eiddo gynnwys:

- Colli incwm oherwydd bod lleoliadau 'tenant' (ysgol, canolfan gymunedol, neuadd eglwys, cwt Sgowtiaid, ac ati) yn methu â gweithredu neu ddim ond yn gallu gweithredu gwasanaeth llai oherwydd gofynion 'landlord' / Iechyd Cyhoeddus Cymru neu gyngor gan Iechyd yr Amgylchedd / canllawiau Mesurau Diogelu.
- Costau rhent neu eraill gostau cyffredinol eraill lle nad oes cymorth arall ar gael neu wedi dod i law.
- Rydych chi dim ond yn gymwys i wneud cais am gyllid i gwmpasu costau staffio ar gyfer staff gweithredol, gan gynnwys gweithwyr ychwanegol. Chewch chi ddim gwneud cais am gyllid i dalu costau staffio os oedden nhw'n gymwys neu'n derbyn ffyrlo rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021 trwy'r Cynllun Cadw Swyddi Coronavirus (CJRS) a / neu unrhyw gymorth ariannol arall er mwyn cadw'r gweithlu. Dyw hyn **ddim** chwaith ar gael ar gyfer staff rheoli na staff swyddfa gefn.

- Rhaid bod y lleoliad wedi cau'n llwyr neu'n rhannol oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Cyllid cysylltiedig ag eiddo ar gyfer lleoliadau sydd ar gau neu ar agor gyda llai o gapasiti oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig ag adeiladau yw:
Cau'n rhannol

- £1000 ar gyfer lleoliadau gofal diwrnod llawn
- £1000 ar gyfer lleoliadau sesiynol / y tu allan i oriau'r ysgol

Cau'n llwyr

- £2000 ar gyfer lleoliadau gofal diwrnod llawn
- £2000 ar gyfer lleoliadau sesiynol / y tu allan i oriau'r ysgol

Staff gweithredol sydd ddim yn hawlio ffyrlo / cyllid cymorth swydd arall:

- £25.00 y dydd ar gyfer lleoliadau gofal diwrnod llawn (£125.00 yr wythnos i bob aelod o staff)
- £12.50 fesul hanner diwrnod ar gyfer lleoliadau sesiynol / y tu allan i oriau'r ysgol (£62.50 yr wythnos i bob aelod o staff)

Os yw eich lleoliad ar agor yn llawn ac yn gweithredu ar gapasiti llawn, fydd eich cais ddim yn gymwys a bydd yn cael ei wrthod.

Os cliciwch 'na' i nodi na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth, bydd eich cais yn cael ei wrthod ar unwaith.

Adran C - Caledi ariannol difrifol

Mae modd i chi wneud cais trwy'r adran yma os yw'ch lleoliad yn dioddef caledi ariannol difrifol o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19 a does dim modd ei ariannu trwy ddulliau eraill, gan gynnwys cefnogaeth bresennol y llywodraeth. Dylech chi wneud cais drwy'r adran yma dim ond os nad yw'r rheswm dros eich caledi ariannol wedi'i gynnwys mewn unrhyw adran arall a'ch bod mewn perygl o gau yn barhaol. Mae lleoliadau sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael blaenoriaeth. Efallai y bydd cyllid ar gael ar gyfer lleoliadau heb eu cofrestru ar yr amod eu bod yn dangos ymrwymiad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru cyn pen 12 mis ar ôl y cais yma.

Gall hyn gynnwys:

- Llai o alw am leoedd gofal plant, lle'r farn yw bod hyn yn rhywbeth dros dro ac oherwydd COVID-19 ac mae'n cael effaith niweidiol sylweddol ar incwm y lleoliad.
- Costau oherwydd cau'n rhannol / dros dro nad ydyn nhw'n dod o dan Adrannau A neu B.
- Rhaid i chi gyflwyno templed ar gyfer adnoddau / eitemau a ariennir. Mae'r templed yma wedi'i anfon atoch yn yr e-bost gwreiddiol. Bydd angen atodi hwn i'r ffurflen gais ar ffurf dogfen Word. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais.

- Pwrpas y grant hwn yw cynnal cynaliadwyedd tymor byr. Os ydych chi'n credu efallai na fydd eich lleoliad yn weithredol o fewn y chwe mis nesaf neu ar ôl 31 Mawrth 2022, cysylltwch â CarfanGofalPlant@rhondda-cynon-taf.gov.uk CYN cwblhau'r cais hwn.

Does dim terfyn i gyllid yr adran yma. Fodd bynnag, oherwydd bod y cyllid yn gyfyngedig, efallai na fydd yn bosibl cefnogi unrhyw geisiadau sy'n dod i law yn llawn. Gwnewch gais am yr eitemau / costau hynny sy'n hanfodol i weithrediad parhaus y lleoliad er mwyn osgoi cau'n barhaol yn unig.

Bydd angen tystiolaeth arnom ni fod eich incwm yn llai na'ch gwariant ar hyn o bryd. Mae templed incwm a gwariant yn y cais am grant.

Os cliciwch 'na' i nodi na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth, bydd eich cais yn cael ei wrthod ar unwaith.

Dyddiad cau ceisiadau ar gyfer pob adran yw **Dydd Llun 28 Chwefror 2022**. **Mae modd dwyn y dyddiad cau ymlaen os ydy'r holl arian sydd ar gael eisoes wedi'i ddyranu.**

5. Proses Gwneud Cais ac Asesu

Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi llenwi pob adran o'r ffurflen. Bydd ceisiadau anghyflawn neu geisiadau sydd heb gyflwyno'r dystiolaeth ofynnol yn cael eu gwrthod.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn ôl yr wybodaeth fanwl a ddarperir.

Bydd pob cais sy'n cael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau isod yn cael ei drafod, a bydd penderfyniadau i ddyfarnu cyllid yn cael ei wneud mewn cyfarfod Panel Grant pwrpasol.

Dyddiad Olaf Gwneud Cais	Cyfarfod Panel Grantiau
28 Chwefror 2022	Bydd y panel grantiau'n cyfarfod bob wythnos i drafod ceisiadau

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn gyson yn erbyn y meini prawf cymhwysedd sydd eisoes wedi cael eu nodi ynghyd â'r meini prawf cyllido er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n briodol.

Byddwn ni'n anelu at brosesu'ch cais cyn pen 10 diwrnod gwaith. Gall hyn amrywio i gyd-fynd â chyfarfodydd panel grantiau. Ar adegau gwyliau cyhoeddus, gall eich cais gymryd mwy o amser i gael ei asesu.

Pan fydd hi'n bosib, byddwn ni'n anfon ebost at ymgeiswyr i'w hysbysu o ganlyniad eu cais cyn pen pythefnos ar ôl i'r cyfarfod Panel Grant gael ei gynnal. Ar ôl derbyn e-bost yn dweud bod eich cais am grant wedi bod yn llwyddiannus, byddwch chi'n cael ffurflen 'Amodau Derbyn'. Rhaid i chi gwblhau'r ffurflen yma yn llawn, ei llofnodi a'i hanfon yn ôl i'r Garfan Gofal Plant trwy e-bostio GrantiauGofalPlantRhCT@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Os na fyddwch chi'n cyflwyno'r ffurflen amodau derbyn wedi'i llofnodi, fydd dim modd i ni roi'ch taliad.

6. Y Broses Dalu

Bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad BACS i'r cyfrif banc busnes sydd wedi'i nodi yn y cais. Bydd y taliad yn cael ei wneud unwaith bod y cais wedi'i asesu a'i gymeradwyo gan y panel grantiau a bod y ffurflen amodau derbyn wedi'i dychwelyd.

Os na fyddwch chi'n cyflwyno'r ffurflen wedi'i chwblhau inni mewn modd amserol ac yn cadw at delerau ac amodau'r grant sy'n cael ei ddyfarnu, mae hawl gyda ni i wrthod eich cais a fyddwn ni ddim yn gwneud unrhyw daliad.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch: GrantiauGofalPlantRhCT@rctcbc.gov.uk